Cwrs Byr Ysgrifennu Creadigol (Rhan-Amser)

Ydych chi wrth eich bodd yn ysgrifennu? Awydd dod yn awdur proffesiynol, neu ddilyn cwrs sy'n caniatáu ichi ymarfer eich sgiliau ysgrifennu? Mae'r cyrsiau newydd a chyffrous hyn yn cynnig y cyfle unigryw hwnnw i chi. Byddwch yn astudio ac yn ymarfer ysgrifennu ar draws pob math a genre: stori fer ffuglen; y nofel; ysgrifennu sgriptiau; ffeithiol: hunangofiant a barddoniaeth – pob prif ffurf. Byddwn hefyd yn eich cyflwyno i syniadau am sut i fynd ati i gyhoeddi eich gwaith ac yn gwahodd cyfres o awduron proffesiynol i ddod i siarad â chi am eu gwaith a'u profiadau fel ysgrifenwyr.

Mae gan bawb stori i'w hadrodd, boed hynny ar ffurf nofel, sgript neu gerdd!

Y cwrs hwn yw eich cyfle i adrodd eich stori, go iawn neu ddychmygol, a darganfod eich llais ysgrifennu a'r ffurf orau y gellir ei chlywed. Cyflwynir y Cwrs trwy ddarlithoedd a gweithdai ysgrifennu cefnogol lle cewch gyfle i rannu'ch gwaith a chael adborth gwerthfawr i'ch helpu i ddatblygu eich ysgrifennu. Fe'ch anogir i gadw dyddiadur darllen ac ysgrifennu i fapio'ch datblygiad fel ysgrifennwr.

Asesir y cwrs trwy unedau Agored Cymru a chyflwyno portffolios ysgrifennu a sylwebaethau myfyriol sy'n esbonio'r broses yr aethoch drwyddi o syniadau cychwynnol, drafftio a fersiynau terfynol. Gallwch chi gyflawni Lefel 3 neu 2 o'ch cyflwyniadau, fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol os ydych chi am fynychu dim ond er mwynhad mawr a gwella a datblygu eich sgiliau ysgrifennu hefyd.

Gofynion Mynediad

Dim

Rhagolygon Gyrfa

Gradd ysgrifennu creadigol, newyddiaduraeth, ysgrifennu sgriptiau, ysgrifennu proffesiynol (arall) mewn unrhyw genre.

DULL ASTUDIO
EV

GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
12W

FFIOEDD
19/20 fees: £140